## Beth yw'r Efengyl

Beth ydyw'r Efengyl? 'Rwy'n meddwl mai John Calfin a ddywedodd unwaith nad oedd yr Efengyl yn ddim byd ond datganiad fod Duw yn Iesu Grist yn maddau i bechaduriaid. Erbyn meddwl, 'doedd yntau ond yn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd ganrifoedd lawer o'i flaen gan awdur y llythyr cyntaf at Timotheus yn y Testament Newydd, sef fod Iesu Grist wedi dod i'r byd i gadw pechaduriaid – gan ychwanegu, fel y mae'n briodol i bob Cristion ychwanegu, mai ef ei hun oedd y pennaf o'r rheini. 'Daeth Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid, o ba rai, pennaf ydwyf fi.' Mewn brawddeg ichi, dyna'r Efengyl.

Felly, mae cyhoeddi'r Efengyl hon yn golygu gwneud dau beth. Mae'n golygu, i ddechrau, dangos i bobl eu bod nhw'n bechaduriaid – hynny yw, yn rhai sy'n anufudd i Dduw, yn torri ei orchmynion, yn elyniaethus tuag at ei hawliau arnynt, yn ei gasáu yn eu calonnau. A rhaid mynd ymhellach na hyn, rhaid dangos iddynt hefyd fod eu pechod yn golygu eu bod dan ddigofaint a chondemniad Duw ac wedi eu dedfrydu ganddo i farwolaeth dragwyddol – ac nid marwolaeth y corff yn unig ond marwolaeth ysbrydol hefyd. Mewn gair, nid pechaduriaid yn unig ydynt, ond pechaduriaid colledig.

Wedyn, wedi gwneud hyn, fe ellir mynd ymlaen i ddangos fod yna Geidwad i'r colledig, fod Iesu Grist wedi dod i'r byd i gadw pechaduriaid. Ac fe wnaeth hynny, yn y pen draw, drwy farw drostynt, marw eu marwolaeth yn eu lle. 'I mi y perthyn y diwedd yna ar grocbren', meddai Karl Barth am farwolaeth y groes. Ond nid marw'n unig a wnaeth Iesu Grist ond atgyfodi hefyd, a heddiw y mae'n cynnig i ni faddeuant a bywyd newydd o gymod â Duw, ond i ni droi cefn ar ein pechod a'n hymddiried ein hunain iddo Ef – ac nid oes terfyn byth ar y bywyd newydd hwn: y mae'n fywyd tragwyddol.

***Dr R. Geraint Gruffydd***

## Gweddïo

Y mae'n ffaith erbyn hyn fod gweddi, fynychaf yn fater o fenthyg geiriau i'w darllen, yn hytrach na chloddio am eiriau ynom ni'n hunain i'w rhannu. Cynhyrchodd 'dosbarthiadau gweddïo' y gorffennol ormod o weddiwyr a fyddai'n gorymarfer ystrydebau. Aethant allan o ffasiwn ers tro a'r her i ni heddiw, bawb ohonom, yw ail ddarganfod yr awydd i weddïo. Mae gweddi fer sy'n 'llawn awyddfryd' yn llawer tebycach o daro tant i'n cyd-addolwyr na 'darlleniad yn ôl y disgwyl'. A ninnau'n byw ynghanol argyfwng cred a gweinidogaeth, gwyliwn rhag dibynnu gormod ar lawlyfrau i siarad drosom. Ynom ni ein hunain y mae'r gweddïau mwyaf eu gwerth – ac nid oes rhaid iddynt fod yn stribed o eiriau. Y mae'n llawer haws trysori profiadau ysbrydol prin eu geiriau ac ymborthi arnynt.

***Yr Athro Hywel Teifi Edwards***